# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

**2009 mccc 2**

## RHAN 3

CYFFREDINOL

### 51 Diwygiadau canlyniadol etc a darpariaeth drosiannol a darpariaeth arbed

(1) Mae Atodlen 1 yn cynnwys mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol ar gyfer Rhan 1 o'r Mesur hwn.

(2) Mae Atodlen 2 yn cynnwys mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol ar gyfer Rhan 2 o'r Mesur hwn.

(3) Mae Atodlen 3 yn cynnwys darpariaeth drosiannol ac arbedion ar gyfer Rhannau 1 a 2 o'r Mesur hwn.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru wneud unrhyw ddarpariaeth drwy orchymyn y bydd Gweinidogion Cymru yn barnu ei bod yn briodol at ddibenion cyffredinol, neu unrhyw ddibenion penodol, y Mesur hwn, neu o ganlyniad i unrhyw ddarpariaeth a wneir drwy'r Mesur hwn, neu er mwyn rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth o'r fath.

(5) Caiff gorchymyn o dan is-adran (4) wneud y canlynol yn benodol—

(a) darparu bod unrhyw ddiwygiad neu unrhyw ddarpariaeth arall a wneir drwy'r Mesur hwn ac sy'n dod i rym cyn y bydd unrhyw ddarpariaeth arall wedi dod i rym yn cael effaith, hyd nes y bydd y ddarpariaeth arall honno wedi dod i rym, gydag addasiadau penodedig, a

(b) diwygio, diddymu neu ddirymu unrhyw ddarpariaeth mewn—

(i) unrhyw Ddeddf neu Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (gan gynnwys y Mesur hwn); a

(ii) is-ddeddfwriaeth.

(6) Mae'r diwygiadau y caniateir eu gwneud yn rhinwedd is-adran (5)(b) yn ychwanegol at y rhai a wneir neu y caniateir eu gwneud o dan unrhyw un o ddarpariaethau eraill y Mesur hwn.

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 10/06/2009. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, Adran 51 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 30 Medi 2023. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(7) Yn yr adran hon mae i "is-ddeddfwriaeth" yr un ystyr â *"subordinate legislation"* yn Neddf Ddehongli 1978 (p. 30).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 51(4)-(7) mewn grym ar 10.6.2009, gweler **a. 53(1)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 10/06/2009. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, Adran 51 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 30 Medi 2023. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.